cyfrifiad
2021

Datganiad iaith Cyfrifiad 2021

Iaith Arwyddion Prydain yng Nghymru a Lloegr

Swyddfa Ystadegau Gwladol

www.cyfrifiad.gov.uk

BSLVID4(W)

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wedi cyhoeddi'r cam nesaf o grynodebau pwnc Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr gan edrych ar grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, Iaith a chrefydd.

Mae hyn yn cynnwys data unamryweb (un newidyn yn unig) hyd at lefel Ardal Gynnyrch, lle y bo'n bosibl.

Mae'r bwletin iaith yn cynnwys gwybodaeth am y nifer sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain.

Iaith Arwyddion Prydain yng Nghymru a Lloegr

Yn ogystal ag ieithoedd a gaiff eu siarad, Iaith Arwyddion Prydain oedd prif iaith **22,000 (0.04%)** o breswylwyr arferol 3 oed a throsodd ledled Cymru a Lloegr. Mae hyn yn gynnydd o **6,000** ers 2011 (15,000, 0.03%).

Yn Lloegr, Iaith Arwyddion Prydain yw prif iaith ychydig dros **21,000** o bobl **(0.04%)**. Mae hyn ychydig yn uwch nag yng Nghymru, lle nododd ychydig dros **900** o bobl **(0.03%)** mai Iaith Arwyddion Prydain yw eu prif iaith. Ledled y ddwy wlad, yr ardal â'r gyfran uchaf o bobl a nododd Iaith Arwyddion Prydain fel eu prif iaith oedd Derby **(400, 0.2%)**, yr un peth ag yn 2011 (300, 0.1%).

Dysgwch fwy

Gallwch ddod o hyd i grynodebau pwnc y cyfrifiad, gan gynnwys y bwletinau, setiau data a gwybodaeth ategol, ar wefan cy.ons.gov.uk/census drwy fynd i'r dudalen calendr datganiadau.